



Cymun Bendigaid ar Gân

Gŵyl yr Holl Saint

31 Hydref 2021 am 9.15am




Cadeirlan
Deiniol Sant
ym Mangor

Saint Deiniol's
Cathedral
in Bangor



Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan
lle safodd Deiniol bron i
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn
525, bu iddo gynnwll o'i
gwmpas gymuned lawn
ffydd, gobaith a chariad,
gan godi o'i chwmpas
ffens gyll—y **bangor**
gwreiddiol—iddi'n gysgod
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch
chwithau, hefyd, eich
cofleidio yma gan yr un
ffydd, gobaith a chariad
a gyhoeddir gennym
heddiw ac sy'n ein
cyfareddu o hyd.

Cymun

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd
â'r Crist bythol atgyfodedig mewn
bara a gwin, ei Gorff a'i Waed ef yn
ein plith.

1 Wrth inni ymgynnull, byddwn yn
paratoi ein hunain i gwrdd â Christ
trwy gyffesu ein pechodau — y
ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw yn
ein bywydau yr wythnos ddiwethaf
hon — ac yn derbyn gollyngdod, sef
sicrwydd o faddeuant Duw.

2 Yna rydyn ni'n gwrando ar
ddarlenniadau o'r Beibl, gan
ganfod yno arweiniad, her,
cysur a newydd da gan Dduw.
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i
Dduw ein gweddi dros bawb mewn
angen.

3 Yn galon i'n haddoliad heddiw,
byddwn yn cymryd bara a gwin,
byddwn yn gofyn am fendith
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

4 Daw ein haddoliad i ben wrth
inni dderbyn bendith Duw, yn
gynhaliaeth inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i
bawb.

Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✠. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip coch**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

Rhagofalon Cofid

Mae'n ofyniad cyfreithiol gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r gofyniad yn gymwys i bawb 11 oed a throsodd onibai bod gennych reswm.

Rydyn ni wrth ein bodd bod pawb bellach yn cael canu, ond gofynnir i bawb heblaw'r Côr ganu y tu ôl i'w gorchudd wyneb.

Fe'ch gwahoddir i ddarparu manylion Profi Olrhain Amddiffyn. Ceir codau QR ger y drysau.

Byddwch yn ystyriol a pharchus tuag at eraill, gan gadw pellter priodol. Mae'r seddi yn yr eiliau yn cynnig mwy o le i ymbellhau.

Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dîm y Gadeirlan.

Hygyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copïau print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwîr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

Hysbys wythnosol

Gosber ar Gân

Byddwn, o heno mlaen, yn offrymu Gosber ar Gân er gogoniant i Dduw bob dydd Sul am 3.30pm. Cefnogwch y gwasanaethau hyn gyda'ch presenoldeb, a dewch â ffrindiau gyda chi i rannu yn yr addoliad cyfoethog hwn.

Bedydd Esgob

Bydd yr Esgob yn gweinidogaethu Bedydd Esgob yng Ngwynnos y Pasg a Chymun Cyntaf y Pasg. Os hoffech chi archwilio'r posibilrwydd o gael eich Cadarnhau drwy Fedydd Esgob, siaradwch ag aelod o dîm y Gadeirlan.

Defodau mis Tachwedd

Gwnewch bob ymdrech i fynychu'r Cymun Bendigaid ar Gân Dros y Meirw, am 5.30pm ddydd Iau 4 Tachwedd, gan gadw Coffadwriaeth yr Holl Eneidiau. Caiff y Cymun ei gynneg dros yr holl ffyddloniaid ymadawedig; ond bydd unigolion yn cael eu cofio yn ôl eu henw yn ystod yr ymbiliau. Ychwanegwch enwau at y rhestr yng nghefn Corff yr Eglwys.

Ar Sul y Cofio 14 Tachwedd, bydd ein gwasanaethau Cymun corawl yn cael eu disodli gan Wasanaeth Coffa am 10am, a fydd yn diweddu wrth y Gofeb.

Cyn ac ar ôl y Cymun

Nodyn oddi wrth yr Is-Ddeon:

Rwyf am rannu ychydig o fyfyrnodau ar ymarferoldeb yr hyn sy'n digwydd

yn union cyn ac ar ôl y Cymun Bendigaid ar Gân a'r Choral Holy Eucharist ar y Sul.

Rwy'n falch ein bod yn gallu gweini paned ar ôl y Cymun Bendigaid ar Gân (ac i unrhyw un a hoffai ddod ychydig yn gynnar cyn y Choral Holy Eucharist), a diodydd ar ôl y Choral Holy Eucharist. Mae wedi bod yn galonogol gweld mwy o bobl yn aros am sgwrs ac i fwynhau cwmni ei gilydd, ac mae'n dda gallu cynnig lletygarwch i ymwelwyr a'r rhai sy'n ymuno â ni am y tro cyntaf. Mae hefyd, wrth gwrs, yn gwbl ddealladwy nad yw rhai ohonom eto'n teimlo'n gyffyrddus yn cymdeithasu mewn grwpiau; a byddwn yn parhau i fyfyrion ar gynneg lluniaeth yng nghyd-destun rhagofalon Cofid. O ddechrau'r Adfent, byddwn yn dechrau awgrymu rhoddion bach tuag at y lluniaeth, a byddwn yn dechrau ffurfioli rota ar gyfer y rhai a hoffai helpu i weini lluniaeth fel rhan o'r tîm stiwardio.

Rwy'n bwriadu parhau i rannu hysbys cyn i'r addoliad ddechrau, am 9.15am ac 11am ar ei ben, a'n gwahodd i fod yn llonydd o'r pwynt hwnnw ymlaen. Rydyn ni'n dechrau dysgu cofio cael cloch yng nghefn y Gadeirlan i'w chanu i nodi dechrau'r orymdaith agoriadol!

Pan fydd y tywydd yn caniatáu, bydd y Côr a'r gweinidogion yn gorymdeithio o'r Drws Gorllewinol – ond rwy'n rhagweld gorymdeithiau amlach ar hyd yr Eil Ogleddol yn ystod misoedd y gaeaf.

Rydyn ni'n ffodus iawn yn y Gadeirlan o gael bendith organyddion galluog, sydd nid yn unig yn cyfeilio i'r Côr a'n hemynyddiaeth, ond hefyd yn perfformio offrymddarnau gwych. Dros y wythnosau diwethaf, chwaraewyd offrymddarnau (fel y'u rhestrir yn nhrefn y gwasanaeth) ar ôl

a chyn y Cymun Bendigaid ar Gân a’r Choral Holy Eucharist. Mae’n hyfryd bod ein haddoliad wedi’i amgylchynu gan gerddoriaeth organ fel hyn.

Yn olaf, rwyf am inni ystyried y cyfnodau cyn ac ar ôl gwasanaethau fel gofod *hybrid*, pan mae llawer o bethau’n digwydd ar yr un pryd. Byddwn am ddefnyddio’r amser i baratoi ein hunain ar gyfer addoli, ac i fyfrio ar yr addoliad yr ydym wedi’i gynnig – ac mae’r offrymddarnau ar yr organ yn ein helpu i wneud hyn. Mae hefyd yn berffaith ddilys bod eisiau gwrando ar gerddoriaeth yr organ am yr hyfrydwch cerddorol pur y mae’n ei ddarparu. Byddwn hefyd, fodd bynnag, eisiau defnyddio’r amser cyn ac ar ôl gwasanaethau i gyfarch ffrindiau, i groesawu newydd-ddyfodiaid, ac i gynnig a rhannu lletygarwch. Weithiau, efallai y byddwn ni’n hwyr ar ddechrau’r gwasanaeth, gan gyrraedd yn brin mewn pryd, neu angen gadael yn syth ar y diwedd, ac mae hynny’n berffaith ddilys hefyd. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ddylem deimlo’r angen i gadw distawrwydd ac aros ar ein heistedd ar ddiwedd gwasanaethau trwy gydol yr offrymddarn. Bydd rhai ohonom eisiau gwneud hyn. Byddwn yn croesawu aelodau’r gynulleidfa yn symud i mewn i’r Cwîr i fod yn agosach at yr organ, os ydych yn dymuno gwneud hynny. Ond mae codi a sgwrsio hefyd yn iawn. Bydd y patrwm ychydig yn fwy hamddenol hwn yn caniatáu inni fod yn llai pryderus ynghylch hyd offrymddarnau, gan ganiatáu i’r organyddion rwydd hynt â’r *repertoire*. Mae hefyd yn caniatáu inni alluogi i bethau lluosog ddigwydd, tra’n cynnal “gofod litwrgaidd” clir pan fyddwn i gyd yn addoli gyda’n gilydd, o swnio’r gloch ar ddechrau’r Cymun i ymadawiad y gweinidogion

ar ei ddiwedd.

Rwy’n falch bod ein haddoliad ar fore Sul yn cael ei barchu a’i gyfoethogi ar hyn o bryd. Mae’n haeddu ein gofal a’n sylw, ac rwy’n ddiolchgar i ni i gyd am ein cyfranogiad, wrth i ni ddathlu’r Cymun gyda’n gilydd fel pobl Dduw yn y fangre hon.

Yn ein gweddïau

Oddi mewn i’n hesgobaeth Ardal Weinidogaeth Bro Moelwyn

Yn glâf Lis Perkins, Glenys Dore, Mary Wynne Jones

A fu farw’n ddiweddar Dorean Pierce, Rosalie Jones

Gŵyl goffa Jean Hughes (3)

Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaith a chariad, a phopeth sy’n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.


1 I roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

2 I sefydlu rhodd Debyd Uniongyrchol misol, gyda’r opsiwn i ychwanegu Cymorth Rhodd, chwiliwch ar-lein am “Eglwys yng Nghymru Rhoi yn Syth” a dewis “Bro Deiniol” o dan “Buddiolwr”.

3 Mae basged i gasglu rhoddion yng nghefn Corff yr Eglwys fore heddiw.



Trefn y gwasanaeth



Rhagarweiniad ar yr organ

Adagio espressivo, Gustav Merkel (1827-1885))

Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



Cynnull

Emyn



Am rif y saint y sydd o'u gwaeau'n rhydd,
i ti a roes gerbron y byd eu ffydd,
dy enw, Iesu, bendigedig fydd:
Haleliwia, Haleliwia!

Ti oedd eu craig, eu cyfnerth hwy a'u mur,
ti, Iôr, fu'n Llywydd yn eu cad a'u cur,
ti yn y ddunos oedd eu golau pur:
Haleliwia, Haleliwia!



**Fendigaid gymun, undeb dwyfol ddrud,
ni yn ein gwendid, hwythau'n wyn eu byd,
ac eto ynot ti mae pawb ynghyd:
Haleliwia, Haleliwia!**

**A phan fo'r gad yn drom a'r brwydro'n hir
daw ar y clyw gân buddugoliaeth glir,
bydd hyder eto'n fyw a nerth yn wir:
Haleliwia, Haleliwia!**

**O fôr a thir er pob rhyw hir wahân,
drwy byrth o berl daw rhif y tywod mân,
a'u cân i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân:
Haleliwia, Haleliwia!**

Geiriau

William Walsham How (1823-1897)

Cyfieithiad

T. Gwynn Jones (1871-1949)

Cerddoriaeth | "Sine nomine"

Ralph Vaughan Williams (1872-1958)

Parhawn ar ein traed tan ddiwedd y Weddi Gasgl

Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.
Amen.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

"Y maent o flaen gorsedd Duw, yn addoli ddydd a nos yn nheml
Duw, a bydd yr un sy'n eistedd ar yr orsedd yn lloches iddynt."

Cyffes

Gan gynnull i ddathlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,
ymbaratown gan gyffesu ein pechodau,

ni â'n gelwir i ddilyn ôl-troed santeiddrwydd,
ni sy'n anwadol ar y daith,
ni sydd angen patrwm y saint,
a'u gweddïau'n gynhaliaeth i'n pererindod.

Cyd-weddïwn.

**Dad nefol,
yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,
a heb wneud yr hyn a ddylem.
Mae'n wir ddrwg gennym,
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.
Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio
ac arwain ni yn ei ffordd ef
i gerdded fel plant y goleuni.
Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthych,
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

Amen.

Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.
*Arglwydd, trugarha. Crist, trugarha.
Arglwydd, trugarha.*

**Cerddoriaeth
Cymun Gwynedd, Joe Cooper**

Gweddï Gasgl

Gweddïwn.

Dduw hollalluog, a gysylltaist ynghyd dy etholedigion yn un
cymundeb a chymdeithas yn nîrgel gorff dy Fab, Crist ein
Gwaredwr: caniatâ inni ras felly i ddilyn dy Saint gwynfydedig
mewn buchedd rinweddol a duwiol, fel y delom i'r llawenydd
anhraethol hwnnw a baratoaist i'r rhai sy'n dy garu'n ddiffuant;
trwy Iesu Grist ein Gwaredwr.

Amen.

Gair

Salmyddiaeth



Cana'r Cor

Y Teyrnas fythol yw dy deyrnas; byth y pery dros y byd.

Ymatebwn

R Teyrnas fythol yw dy deyrnas; byth y pery dros y byd.

Y Mawr wyt ti, O Dduw, a theilwng iawn o fawl,
ac y mae dy fawredd yn anchwiliadwy.
Molianna'r naill genhedlaeth dy waith wrth y llall,
a mynegi dy weithredoedd nerthol.

R Teyrnas fythol yw dy deyrnas; byth y pery dros y byd.

Y Dygant i gof dy ddaioni helaeth,
a chanu am dy gyfiawnder.
Graslon a thrugarog wyt ti, O Dduw,
araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb.

R Teyrnas fythol yw dy deyrnas; byth y pery dros y byd.

Y Yr wyt ti, O Dduw, yn dda wrth bawb,
ac y mae dy drugaredd tuag at dy holl waith
Y mae dy holl waith yn dy foli, O Dduw,
a'th saint yn dy fendithio.

R Teyrnas fythol yw dy deyrnas; byth y pery dros y byd.

Salm 145:3-13
Cerddoriaeth
Joe Cooper

Darlleniad o'r Datguddiad i Sant Ioan y Difinydd.

Wele: Gwelais angel yn esgyn o godiad haul, a chanddo sêl y Duw byw. Gwaeddodd â llais uchel ar y pedwar angel y rhoddwyd iddynt awdurdod i niweidio'r ddaear a'r môr, a dywedodd: "Peidiwch â niweidio na'r ddaear na'r môr na'r coed nes inni selio gweision ein Duw ar eu talcennau." A chlywais rif y rhai a seliwyd, cant pedwar deg a phedair o filoedd wedi eu selio, o bob un o lwythau plant Israel. Ar ôl hyn edrychais, ac wele dyrfa fawr na allai neb ei rhifo, o bob cenedl a'r holl lwythau a phobloedd ac ieithoedd, yn sefyll o flaen yr orsedd ac o flaen yr Oen, wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, a phalmwydd yn eu dwylo. Yr oeddent yn gweiddi â llais uchel: "I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen y perthyn y waredigaeth!" Yr oedd yr holl angylion yn sefyll o amgylch yr orsedd a'r henuriaid a'r pedwar creadur byw, a syrthiasant ar eu hwynebau gerbron yr orsedd ac addoli Duw gan ddweud: "Amen. I'n Duw ni y bo'r mawl a'r gogoniant a'r doethineb a'r diolch a'r anrhydedd a'r gallu a'r nerth byth bythoedd! Amen." Gofynnodd un o'r henuriaid imi, "Y rhai hyn sydd wedi eu gwisgo â mentyll gwyn, pwy ydynt ac o ble y daethant?" Dywedais wrtho, "Ti sy'n gwybod." Meddai yntau wrthyf, "Dyma'r rhai sy'n dod allan o'r gorthrymder mawr; y maent wedi golchi eu mentyll a'u cannu yng ngwaed yr Oen. Am hynny, y maent o flaen gorsedd Duw, yn addoli ddydd a nos yn nheml Duw, a bydd yr un sy'n eistedd ar yr orsedd yn lloches iddynt. Ni newynant mwy ac ni sychedant mwy, ni ddaw ar eu gwarthaf na'r haul na dim gwres, oherwydd bydd yr Oen sydd yng nghanol yr orsedd yn eu bugeilio hwy, ac yn eu harwain i ffynhonnau dyfroedd bywyd, a bydd Duw yn sychu pob deigryn o'u llygaid hwy."

Clywch air bywyd i'n byd.

Diolch a fo i Dduw.

Effesiaid 6:10-20

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu'r Efengyllydd yng Nghorff yr Eglwys

Efengyl



Cana'r Cor

Y Halelwia. Halelwia. Halelwia.

Ymatebwn

R Halelwia. Halelwia. Halelwia.

I'n Duw ni, sy'n eistedd ar yr orsedd, ac i'r Oen
y perthyn y waredigaeth.

R Halelwia. Halelwia. Halelwia.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Mathew.

Gogoniant i ti, O Grist.

Bryd hynny: Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fynyr
mynydd, ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion
ato. Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn: "Gwyn
eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd eiddynt hwy
yw teyrnas nefoedd. Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd
cânt hwy eu cysuro. Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd
cânt hwy etifeddu'r dddear. Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a
sychedu am gyfiawnder, oherwydd cânt hwy eu digon. Gwyn
eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy dderbyn trugaredd.
Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy weld
Duw. Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu
galw'n blant i Dduw. Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos
cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd. Gwyn
eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac
yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o'm
hachos i. Llawnhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich
gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi
oedd o'ch blaen chwi."

Mathew 5:1-12

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

Moliant i ti, O Grist.

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

Pregeth

Y Canon Emeritws

Ar derfyn y bregeth, codwn ar ein traed

Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,
Dad, Mab ac Ysbryd Glân.
Amen.**

Cyflwyno'r Wenwisg a Sefydlu

Cyflwyno'r Wenwisg i Goryddion

Caiff y rhai sydd i dderbyn y Wenwisg eu dwyn ymlaen gan y Cyfarwyddwr Cerdd a Phennaeth Datblygu'r Côr, a'u cyflwyno gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, cyflwynaf i chi Arianwen, lestyn, Bronwen a Goronwy, sydd wedi cwblhau eu cyfnodau prawf ac sydd bellach yn barod i gael eu derbyn fel Coryddion yng Nghôr ein Cadeirlan.

Ydych chi am fod yn un o Goryddion Côr y Gadeirlan hon?

Ydw.

A wnewch chi feithrin eich doniau, a'u hoffrymu er gogoniant i Dduw?

Gwnaf.

Yng ngwasanaeth y fangre sanctaidd hon, a fyddwch chi'n barchus, yn ffyddlon ac yn weddigar?

Byddaf.

Gweddïwn.

Hollalluog Dduw, awdur pob rhyfeddod a hyfrydwch, a elwaist dy wasanaethyddion dros fôr y canrifoedd i ganu mawl i ti yn y fangre hon; tywallt roddion dy Ysbryd Glân ar y rhai hyn ger dy fron heddiw, gan lenwi eu calonnau â'th gariad a'u genau â'th gân, fel y cyhoeddir dy ogoniant yn y ddinas hon a thrwy'r holl greadigaeth; yn Enw Sanctaidd Crist.

Amen.

Caiff y Gwenwisgoedd eu didoli gan Bennaeth Datblygu'r Côr

Arianwen, lestyn, Bronwen a Goronwy, ar ran Cabidwl a Phobl Cadeirlan Deiniol Sant, rwy'n eich derbyn fel Coryddion yng Nhôr y Gadeirlan. Bydded Duw, awdur nefoedd a daear, yn gynhaliaeth i chi o'r bryniau, fel y bo'ch camre'n gadarn a'ch ffyrdd yn union; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo arnoch yn awr ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Sefydlu Ysgolheigion

Caiff y rhai i'w sefydlu eu dwyn ymlaen a'u cyflwyno gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Bobl Cadeirlan Deiniol Sant, cyflwynaf i chi Aine, Alice, Hannah, Holly, Jonathan, Nemo, Phoebe, Sarah a Timothy, sydd wedi'u penodi'n Ysgolheigion y Gân eleni, a Harry, sydd wedi'i benodi'n Ysgolhaig yr Organ eleni.

Gweddïwn.

O Dduw, y mae saint ac angylion yn ymhyfrydu d'addoli yn y nefoedd, bydd bresennol fyth â'th wasanaethyddion sydd, trwy gynghanedd a cherddoriaeth, yn perffeithio'r clodydd a offrymir gan dy greadigaeth is y rhod; a chaniatâ iddynt hyd yn oed yn awr gipolwg o'th wynfyd, a'u gwneud yn deilwng yn yr oes a ddaw o'r rhan ym moliant diderfyn dy dragwyddoldeb; yn Enw Sanctaidd Crist.

Amen.

Caiff y rhai i'w sefydlu eu harwain i Seddau'r Côr gan y Cyfarwyddwr Cerdd

Aine, Alice, Hannah, Holly, Jonathan, Nemo, Phoebe, Sarah, Timothy a Harry, ar ran Cabidwl a Phobl Cadeirlan Deiniol Sant, rwy'n eich sefydlu'n Ysgolheigion y Gân a'n Ysgolhaig yr Organ yng Nhôr y Gadeirlan. Bydded Duw'n gysgod yn eich hymyl i'ch henaidd, gan warchod ein myned a'ch dyfod bob dydd; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo arnoch yn awr ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Ti, Dduw, a folwn: ti a gydnabyddwn yn Arglwydd.
Yr holl ddaear a'th fawl di: y Tad tragywyddol.
Amen.

Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Y O Dduw, yn dy drugaredd,

R Gwrando ein gweddi.

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.

R A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Y ✕ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.

R A chyfodi mewn gogoniant.

Y Dad trugarog,

R Derbyn y gweddïau hyn

er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.

Amen.

Codwn ar ein traed

Cymun

Eryn

The musical score is written for four staves in 4/4 time. The first staff begins with a treble clef and a 4/4 time signature. The melody consists of eighth and quarter notes, with a dotted half note in the second measure. The second staff continues the melody, featuring a sharp sign on the eighth note in the fourth measure. The third staff shows a continuation of the melodic line with various note values. The fourth staff concludes the piece with a final dotted half note and a double bar line.

Na foed cydweithwyr Duw
byth yn eu gwaith yn drist
wrth ddwyn y meini byw
i'w dodî'n nhemel Crist:
llawenydd sydd, llawenydd fydd
i bawb sy'n gweithio 'ngolau ffydd.

Mae gweithwyr gorau'r ne'
yn marw yn eu gwaith,
ond eraill ddaw'n eu lle
ar hyd yr oesoedd maith;
a ffyddlon i'w addewid fry
yw'r hwn a fu'n sylfaenu'r tŷ.

Mae'r Iesu eto'n fyw,
a'r gwaith sydd dan ei law;
ar gyfer gweithwyr Duw
mae bendith oesau ddaw:
llawenydd mawr ynghyd a gawn
ryw ddydd, wrth weld y tŷ yn llawn.

Geiriau
Elfed (1860-1953)
Cerddoriaeth | "Darwall"
John Darwall (1731-1789)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneddio.

Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.

Gweddi Ewcharistaidd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Dyrchefwch eich calonnau.

Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

lawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

lawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Yr adlewyrchir ei ogoniant ym mywydau dy saint. Ynddynt hwy rhoist inni esiamplau o ffyddlondeb a chariad. Yn eu sancteiddrwydd canfyddwn anogaeth a gobaith. Mewn cymundeb â hwy rhannwn yn undod dy deyrnas.

Felly, gyda llu'r angylion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd, Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf.

✠ Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.

Cerddoriaeth

Cymun Gwynedd, Joe Cooper

Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwytwch; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

Bu farw Crist.

Atgyfododd Crist.

Daw Crist mewn gogoniant.

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deuwn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. Amen.

Tangnefedd

Rwyt ti, O Dduw, yn gweu ynghyd dy etholedigion yn un cymundeb a chymdeithas yn nirel gorff dy Fab; ei gorff torredig, gogoneddus yn gyflawn mewn tangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn

Torri

Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym.
Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.

Cerddoriaeth

Cymun Gwynedd, Joe Cooper

Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno o'r Aafrelladen Sagrafennol yn unig ar hyn o bryd

Anthem

Cana'r Côr

Gwyn fyd y galon bur,
ei braint yw gweled Duw,
a byw yn ei gyfrinach ef –
a thrigfan iddo yw.

Ymwêl efe o hyd
â'r truan yn ei gur;
dewisol fan ei orsedd yw
y galon lân a phur.

Geiriau

John Keble (1792-1866)

Cyfieithiad

Thomas Davies (1820-1873)

Cerddoriaeth

Henry Walford Davies (1869-1941)

Ar ôl i bawb Gymuno, safwn i ganu'r emyn



Pwy yw'r rhain, fel sêr y nefoedd,
 sydd gerbron gorseddfainc Duw,
 mewn ardderchog euraidd wisgoedd,
 yn cydseinio clodydd gwiw?
 Haleliwia
 yw eu gorfoleddus gân.

Dyma'r rhai a ddaethant allan
 o drueni'r cystudd mawr;
 gwae a gofid fu eu cyfran,
 cyn cael gwynfyd uwch y llawr;
 hwy a olchwyd
 oll yn lân yng ngwaed yr Oen.

**Arglwydd, cynorthwya ninnau
byth i ddilyn ôl eu traed,
nes in gyrraedd, gyda'th seintiau,
wir ddedwyddwch trwy dy waed;
yno canwn
mewn gorfoledd gyda hwy.**

Geiriau

Heinrich Theobald Schenk (1656-1727)

Cyfieithiad

Evan Pughe (1806-1869)

Cerddoriaeth | "Cwm Rhondda"

John Hughes (1873-1932)

Parhawn ar ein traed

Gweddi ôl-Gymun

Cyd-weddïwn.

Yr hyn a gymerasom â'n genau,
Dyro i ni' dderbyn â chalon lân;

Ac o fod yn rhodd dymhorol,
Boed i ni'n feddyginiaeth dragwyddol.

Ymadael

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

A'th gadw di yng nghariad Crist.

Bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân
a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

Amen.

Awn ymaith mewn tangnefedd.

Yn Enw Crist. Amen.

Parhawn ar ein traed hyd nes i'r gweinidogion ymadael; yna eisteddwn neu ymadael
Mae croeso cynnes i chi aros am baned yng nghefn Corff yr Eglwys

Offrymddarn ar yr organ

Placare Christe servulis, Marcel Dupré (1886–1971)

O'n blaenau



Heno

3.30pm

Gosber ar Gân | Choral Evensong

Ymatebion | Responses, Ayleward
Evening Service in E, Murrill
Give us the wings of faith, Bullock
Cloister Garth, Brewer

Yn dyddiol 1-3 a 5-6 Tachwedd

12.30pm

Cymun Bendigaid | Holy Eucharist

4 Tachwedd | Gŵyl yr Holl Eneidiau

5.30pm

Cymun Bendigaid ar Gân Dros y Meirw | Choral Holy Eucharist of Requiem

Yr Is-Ddeon yn pregethu | The Sub-Dean
preaching
Requiem, Fauré
Iesu, cyfaill f'enaid i | Jesu, Lover of my soul,
"Aberystwyth"

7 Tachwedd | Gŵyl Saint Cymru

8.15am

Holy Eucharist

9.15am

Cymun Bendigaid ar Gân

Y Darlennydd yn pregethu
Molwn di, O Dduw ein tadau, "Hyfrydol"
Offeren Fer, Palestrina
O Arglwydd, am dy saint, "Bod Alwyn"
O quam gloriosum, Victoria
Am bob sant, "Rhondda"

11am

Choral Holy Eucharist

The Reader preaching
The Church's one foundation, "Aurelia"
Missa "O quam gloriosum", Victoria
O thou who at thy Eucharist, "Song 1"
O quam gloriosum, Victoria
Forth in thy name, "Song 34"
Prelude in C, Buxtehude

3.30pm

Gosber ar Gân | Choral Evensong

Cadeirlan Deiniol Sant ym Mangor

Is-Ddeon

Canon Siôn B. E. Rhys Evans

sionrhys@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon dros Fywyd Cynulleidfaol

Canon Tracy Jones

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd

Joe Cooper

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd

Martin Brown

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu

Naomi Wood

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Darlennydd ac Ystlydd

Elma Taylor

Clerc y Cabidwl

Robert Jones

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritus

Canon Angela Williams

Pensaer y Gadeirlan

Simon Malam

Rhif elusen 1158340

Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur biodderraddadwy, teneuach na'r arfer, wedi'i wneud o goedwigoedd adnewyddadwy wedi'u plannu, sy'n storio carbon.

Caiff rhai o'n gwasanaethau'n eu ffurfio ar Facebook o gamera ym mhen dwyreiniol Corff yr Eglwys sy'n wynebu'r dwyrain, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletswydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw fflmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dim y Gadeirlan.

Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r llithoedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Ar y clawr mae rhan o Driptych y Farn Fawr gan Feistr Triptych Orléans (fl. c. 1500) yn Amgueddfa'r Met.